

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

11 Rhagfyr 2017 am 1:30 o'r gloch
Ystafell Arthur, Yr Atom, Caerfyrddin

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Peter Hughes-Griffiths	PHG	Plaid Cymru (Cadeirydd)
Cyng. Carys Jones	CJ	Plaid Cymru
Cyng. Dorian Williams	DW	Plaid Cymru
Cyng. John Prosser	JP	Llafur
Cyng. Alun Lenny	AL	Plaid Cymru
Cyng. Fozia Aktar	FA	Llafur
Cyng. Sue Allen	SA	Annibynnol
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Swyddogion		
Rhian Dawson	RD	Pennaeth Gwasanaethau Integredig
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Llinos Evans	LLE	Swyddog Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi Iaith
Bethan James	BJ	Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Peter ac yn benodol y Cynghorydd Fozia Aktar, trydydd cynrychiolydd y Grŵp Llafur o fewn y cyngor. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymraeg yr Atom, canolfan a ariannwyd drwy Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn nhref Caerfyrddin. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Tina Higgins a Wendy Walters.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.	

3.	<p>Penodi Is-gadeirydd</p> <p>Nodwyd bod angen i'r Panel, yn unol a'r cylch gorchwyl, i benodi Is-gadeirydd.</p> <p>Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd Edward Thomas fel Is-gadeirydd.</p>	BJ
4.	<p>Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau – Rhian Dawson, Pennaeth Gwasanaethau Integredig</p> <p>Croesawyd Rhian Dawson, Pennaeth Gwasanaethau Integredig i'r cyfarfod. Mae gan Rhian gyfrifoldebau o fewn y Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd o ran Pobl Hŷn, Gwasanaethau Cymdeithasol a chymorth i bobl wrth ymadael â'r ysbty.</p> <p>Rhian yw'r Arweinydd Iaith o fewn Adran Cymunedau a hi sy'n arwain ar weithrediad Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau. Nod y fframwaith yw sicrhau bod darparwyr gofal yn darparu gwasanaethau yn yr un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Fel rhan o'r cyflwyniad, dangoswyd fideo gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n esbonio pwysigrwydd mamiaith a iaith gyntaf i grwpiau megis plant, pobl hyn a phobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.</p> <p>Amlinellodd Rhian y gwaith manwl sydd wedi ei wneud wrth adnabod sgiliau iaith staff o fewn Gofal Cymdeithasol. Cynhaliwyd awdit manwl ac roedd 30% o staff ar lefel 1, 18% ar lefel 2, 9% ar lefel 3, 7% ar lefel 4 a 15% ar lefel 5.</p> <p>Gwnaed gwaith manwl ar gofnodion ein cleientiaid ar system Care First hefyd, gyda 444 ohonynt yn medru siarad Cymraeg (o'r 1227 cleient ar y system). Mae'r cwestiwn hanfodol o ran gallu yn y Gymraeg wedi ei ail-gyflwyno erbyn hyn, er mwyn sicrhau darlun cyson a chywir.</p> <p>Bu'r isadran yn edrych hefyd ar gymhareb staff i ddefnyddwyr gwasanaeth a bu dadansoddiad fesul Rheolwr o fewn y gwasanaeth. Yn ogystal, bu cyfle i edrych ar ganlyniadau sampl o staff (yn dilyn yr hunan asesiad ieithyddol) a canfuwyd bod 36% o bobl wedi tan asesu o ran sgiliau. Yr her felly yw meithrin hyder ymhlith y staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Cytunwyd bod rhaid edrych ar gyfleoedd o'r newydd o fewn y gweithle er mwyn annog diwylliant cefnogol o fewn yr Adran; cyfleoedd megis cynlluniau gweithredu a hyfforddiant, cefnogaeth Dysgu a Datblygu a chynllun Arweinwyr Iaith.</p> <p>Nododd Rhian ei bod hi'n anodd i recriwtio staff sydd a lefel uchel o ruglder yn y Gymraeg i'r maes, a bod angen cydweithio â sefydliadau cyfagos er mwyn sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i'r cymunedau mwyaf bregus.</p> <p>Nodwyd bod gwasanaeth Dewis Sir Gâr wedi derbyn cymeradwyaeth drwy wobrau cenedlaethol Mwy na Geiriau. Amlygwyd bod y gwasanaeth hwn yn un cwbl dwyieithog, a hynny wrth ofalu am gleientiaid bregus. Mae 92% o gwsmeriaid y gwasanaeth wedi derbyn y gwasanaeth yn unol a'u dewis iaith.</p> <p>Nododd y Cynghorydd Lenny y pwysigrwydd o ystyriaethau ieithyddol mewn gofal dementia a bod pobl hŷn sy'n dioddef o'r cyflwr yn gallu colli caffael o ail</p>	

	<p>laith. Nodwyd bod gwaith da yn cael ei wneud ond bod gofid nad yw'r Fframwaith yn cael ei weithredu'n gyson, fel y bwriadwyd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am gyfleoedd i baru pobl sydd a sgiliau is gyda staff sydd a sgiliau yn y Gymraeg, er mwyn meithrin hyder a gallu cychwynnol yn y Gymraeg. Mae nifer o gynlluniau ar waith o fewn yr adran er mwyn adeiladu ar y sgiliau ac mae Rhian yn awyddus i weld pawb yn cyrraedd Lefel 1.</p> <p>Nododd y Cynghorydd Fozia Aktar bod nifer o bobl yn ei chymuned sydd â diddordeb i ddysgu Cymraeg. Cytunwyd i rannu gwybodaeth am y ddarpariaeth ac i edrych ar gyfleoedd o'r newydd yn ardal Llwynhendy.</p> <p>Esboniodd y Cynghorydd Sue Allen bod hyfforddiant Dementia Cyfeillgar wedi ei drefnu ar gyfer ei hardal hi. Ar hyn o bryd, nid oes un o'r hyfforddwr yn gallu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ond mae cynlluniau ar waith er mwyn canfod rhywun.</p> <p>Cytunwyd ar bwysigrwydd cynnal digwyddiadau megis Coffi a Chlonc er mwyn meithrin hyder pobl a rhoi cyfle anffurfiol iddynt i ymarfer eu Cymraeg. Mae carfan o bobl (oddeutu 20,000 o bobl yn ôl Cyfrifiad 2011) sydd a sgiliau yn y Gymraeg ond sydd heb yr hyder i gofnodi hynny'n ffurfiol.</p> <p>Diolchwyd i Rhian am ei chyflwyniad manwl.</p>	<p>Tîm Polisi a Phartneriaeth</p>
<p>5.</p>	<p>Adroddiad Blynyddol y Gymraeg</p> <p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol o ran gweithrediad y Safonau ar gyfer 2016-17. Mae paratoi adroddiad blynyddol yn gyfrifoldeb statudol i'r cyngor a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor, yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a chyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg drwy farchnadoedd y sir. Cytunodd yr aelodau ar bwysigrwydd y sector breifat a nodwyd bod swyddogion datblygu busnes wedi'u penodi gan y Mentrau Iaith, drwy gyllid Llywodraeth Cymru. Mae yna ddau swyddog wedi'u penodi yn Sir Gâr.</p> <p>Cytunwyd y bydd Adroddiad Blynyddol 2017-18 yn grwpio'r Safonau yn hytrach na manylu fesul Safon.</p> <p>Cytunwyd i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.</p>	
<p>6.</p>	<p>Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu</p> <p>Amlinellodd Myfanwy gynllun gweithredu'r Strategaeth Hybu, gan osod y cyd-destun y ddogfen. Paratowyd y Strategaeth Hybu yn ystod 2016 ac mae'r ddogfen hon yn gosod allan y cynlluniau ar gyfer gweithredu'r Strategaeth honno.</p> <p>Mae'r ddogfen yn cynnwys argymhellion adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' a gytunwyd gan y Cyngor llawn ym mis Ebrill 2014. Bu cyfle drwy'r gwaith hwn i</p>	

	<p>ddiweddaru'r argymhellion ac mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r adrannau cyfrifol. Mae'r argymhellion o ran y maes Addysg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</p> <p>Trafodwyd cynnwys y ddogfen fesul amcan a nodwyd bod bylchau wedi'u hadnabod o dan amcan 3 o ran symudoledd pobl. Mae nifer o fentrau a pholisïau ar waith gan y cyngor, megis y polisïau Cynllunio a Thai.</p> <p>Nododd y Cadeirydd bod y Cynllun Gweithredu yn amlygu'r angen am gyd-gynllunio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau.</p> <p>Cafwyd trafodaeth am adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol a nododd y Cynghorydd Alun Lenny nad oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi dod i law yn yr ardaloedd o bwysigrwydd ieithyddol (sydd a 60% o boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg) a nodwyd yn y cynllun cyfredol. Cynigodd y Cynghorydd Lenny bod y Panel yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu'r Cynllun a bod angen ystyriaeth ddwys o'r ardaloedd sydd o bwysigrwydd ieithyddol a bod potensial o ran ardaloedd blaenoriaeth y Strategaeth Hybu.</p> <p>Cafwyd trafodaeth o ran cefnogaeth i ddysgu'r Gymraeg a sut mae'r gefnogaeth hynny'n cael ei gynnig. Cytunwyd bod angen addasu i sefyllfaoedd megis yr ysgol newydd ym Mhenrhos, Llanelli a'n bod ni'n darparu sesiynau anffurfiol, cymunedol er mwyn cefnogi rhieni. Cafwyd enghraifft hefyd o gymuned Abergorlech, lle mae 21 o bobl yn dod ynghyd i ddysgu'r iaith drwy Brifysgol Aberystwyth.</p> <p>Bydd y Fforwm Sirol Strategol yn trafod cynnwys y ddogfen ym mis Ionawr 2018.</p> <p>Cytunodd yr Aelodau ar gynnwys y ddogfen.</p>	MJ
7.	<p>Ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'</p> <p>Nodwyd bod y Cyngor wedi paratoi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil y Gymraeg. Roedd y dyddiad cau ar 31 Hydref 2017.</p> <p>Yn y cyfamser, mae Eluned Morgan wedi ei phenodi yn Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes felly rydym yn aros am ymateb y Llywodraeth o ran cynlluniau'r dyfodol.</p> <p>Bydd y tîm Polisi a Phartneriaeth yn danfon diweddariadau at Aelodau'r Panel.</p>	Tîm Polisi a Partneriaeth
8.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Cytunwyd i edrych ar ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion / Y Gymraeg yn y Gymuned yn y cyfarfod nesaf ac i wahodd Kelly Morris, Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu.</p> <p>Nodwyd bod cwmni 'Mewn Cymeriad' yn cynnal sioe ar gyrraedd Miliwn o Siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd a byddai dolen naturiol i hyn gyda'r Siartr Iaith. Cytunwyd i edrych ar hyn ymhellach.</p>	BJ

	<p>Cytunwyd bod angen gweithio'n agosach gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref a bod angen gwahodd eu sylwadau o ran y Gymraeg, gan ystyried cefnogaeth bellach iddynt at y dyfodol.</p> <p>Cytunwyd bod angen edrych ar gontinwmm laith a sut dy ni'n annog pobl ifanc i barhau ag addysg / gyrfa drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd cyfle i drafod hyn gyda'r Fforwm Sirol Strategol yn ogystal.</p> <p>Cytunwyd i edrych ar gyfleoedd dysgu Cymraeg i Gynghorwyr ac i gynnal awdit byr o ddiddordeb er mwyn trefnu.</p>	Tîm Polisi a Phartneriaeth
9.	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>22 Chwefror 2018 am 10 o'r gloch.</p>	BJ